# Disgrifiad Rôl

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Aelod Pwyllgor Ymchwil ar Addysgu a Dysgu Cymraeg y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol |
| **Graddfa / Cyflog:** | Gwirfoddol<br>Telir costau yn ychwanegol |
| **Oriau / CALI:** | Cynhelir 3 chyfarfod y flwyddyn. Rhagwelir y bydd dau yn rhithiol ac un mewn person. |
| **Math o gontract:** | Tymor penodol o 1 Ebrill 2026 hyd at 31 Gorffennaf 2027. |

Mae’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn arbenigo mewn dysgu a chaffael iaith ac yn chwarae rôl allweddol wrth gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, fel y nodir yn strategaeth Cymraeg 2050.

Mae’r Ganolfan yn gyfrifol am gydlynu a darparu cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg, ac mae mewn sefyllfa unigryw i sicrhau bod addysgu a dysgu'r iaith yn seiliedig ar dystiolaeth, arloesedd, a chynhwysiant.

Un o flaenoriaethau’r Ganolfan ar gyfer 2025/26 yw sefydlu Strategaeth Ymchwil fydd yn darparu fframwaith ar gyfer cynhyrchu, comisiynu, a defnyddio ymchwil, gan osod y Ganolfan yn ganolbwynt ar gyfer ymchwil yn y maes dysgu ac addysgu’r Gymraeg.  Y nod yw creu sail dystiolaeth gadarn sy'n cryfhau'r ddarpariaeth Dysgu Cymraeg, yn cynyddu hyder dysgwyr a'u defnydd o'r iaith, ac yn cyfrannu'n uniongyrchol at nodau polisi cenedlaethol ehangach.

**Pwyllgor Ymchwil**
Rydym yn chwilio am aelodau i ymuno â Phwyllgor Ymchwil newydd fydd yn arwain y strategaeth. Rydym yn awyddus i gynnwys amrediad eang o aelodau sydd â phrofiad yn y maes ymchwil neu ddysgu a chaffael iaith.

Bydd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn cynnwys y canlynol:

- **Datblygu Strategaeth Ymchwil**: Cynorthwyo’r Ganolfan i lunio cyfeiriad cyffredinol ar gyfer y gwaith ymchwil, gan ei gydblethu â chynlluniau a blaenoriaethau strategol.
- **Gweithredu Rhaglen Ymchwil:** Darparu cyngor a chraffu ar ymchwil mae’r Ganolfan yn ei gomisiynu neu’n ei gefnogi.
- **Adolygiad Ethigol**: Rhoi cyngor ar gynigion ymchwil i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chanllawiau moesegol ac yn diogelu hawliau a lles y cyfranogwyr.
- **Monitro a Gwerthuso**: Cefnogi a chraffu ar drefniadau monitro cynnydd prosiectau ymchwil, asesu perfformiad yn erbyn prif allbynnau, ac adnabod meysydd sydd angen eu gwella.
- **Hyrwyddo Rhagoriaeth Ymchwil**: Annog a hwyluso ymchwil o ansawdd uchel trwy gymorth amrywiol, gan gynnwys cyllid, gwybodaeth ac adnoddau

amrywiol. Datblygu capasiti ymchwil drwy gyfleoedd amrywiol i gydweithio â phartneriaid.

- **Cyfnewid Gwybodaeth ac Effaith**: Sicrhau strategaethau cyfnewid gwybodaeth am ymchwil dysgu ac addysgu. Sicrhau hefyd bod y gweithgareddau ymchwil yn dylanwadu ar waith y maes.

## PRIF DDYLETSWYDDAU

- Darllen papurau a mynychu cyfarfodydd yn ôl y galw.
- Cyfrannu'n adeiladol i'r cyfarfodydd.
- Rhoi sylwadau yn ysgrifenedig ac ar lafar ar sail eich profiad a'ch gwybodaeth.
- Darparu cyngor i swyddogion y Ganolfan.
- Glynu wrth bolisïau a gweithdrefnau perthnasol y Ganolfan.

## MANYLEB YR UNIGOLYN

Gwahoddir ceisiadau i fod yn **Aelod o'r Pwyllgor Ymchwil.** Mae angen i'r aelodau a benodir drwy'r drefn ymgeisio fod yn rhai sydd â gwybodaeth am ddysgu ac addysgu naill ai drwy:

- Brofiad o gomisiynu neu gynnal gwaith ymchwil;
- Profiad o gynllunio ieithyddol ar lefel strategol;
- Profiad o ddysgu ac addysgu ail iaith;
- Profiad o waithy y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r gefnogaeth eang mae'n ei darparu ar hyd y continwwm iaith;
- Profiad o arolygu myfyrwyr ymchwil;
- Neu brofiad o feysydd eraill perthnasol, allai gynnwys data, ystadegau, ymgynghori.

Bydd angen i chi fod yn berson sy'n awyddus i wneud cyfraniad cadarnhaol i'r sector Dysgu Cymraeg ar sail eich gwybodaeth a'ch profiad. Bydd gennych syniadau am beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei newid a pharodrwydd i rannu syniadau. Byddwch yn awyddus i wneud gwahaniaeth o ran profiad y dysgwr a gweld mwy yn dod yn hyderus i ddefnyddio eu Cymraeg yn eu bywydau pob dydd. Felly byddwch am ddylanwadu ar y penderfyniadau a gymerir i ddatblygu maes ymchwil y Ganolfan a'i chynorthwyo i ddod yn ganolbwynt ar gyfer ymchwil dysgu ac addysgu.

Os hoffech sgwrs anffurfiol am y rôl, mae croeso i chi gysylltu â Dona Lewis, Prif Weithredwr y Ganolfan, dona.lewis@dysgucymraeg.cymru

Er mwyn gwneud cais gofynnir i chi ddarparu llythyr eglurhaol a cv at swyddfa@dysgucymraeg.cymru

Mae'n bosibl y byddwn yn trefnu cyfweliadau maes o law ar gyfer y rolau hyn.

**Y dyddiad cau** yw 27 Chwefror 2026.

# <u>Role Description</u>

| | |
|---|---|
| **Job Title:** | Member of the National Centre for Learning Welsh's Research Committee on Welsh Language Teaching and Learning |
| **Grade / Salary:** | Voluntary<br>Expenses will be paid |
| **Hours / Commitment:** | 3 meetings per year. It is anticipated that two will be held virtually and one in person. |
| **Contract:** | Fixed term from 1 April 2026 to 31 July 2027. |

The National Centre for Learning Welsh specialises in language learning and acquisition and plays a key role in supporting the Welsh Government's ambition to reach one million Welsh speakers by 2050, as set out in the *Cymraeg 2050* strategy.

The Centre is responsible for coordinating and delivering opportunities to learn Welsh, and is uniquely placed to ensure that the teaching and learning of the language is grounded in evidence, innovation, and inclusivity.

One of the Centre's priorities for 2025/26 is to establish a Research Strategy that will provide a framework for producing, commissioning, and using research, positioning the Centre as a focal point for research in the field of Welsh language teaching and learning. The aim is to create a robust evidence base that strengthens Welsh Learning provision, increases learners' confidence and use of the language, and contributes directly to wider national policy objectives.

**Research Committee**
We are seeking members to join a new Research Committee that will lead on this strategy.
We are keen to include a wide range of members with experience in research or in language learning and acquisition.

The Committee's Terms of Reference will include the following:

- **Developing a Research Strategy:** Supporting the Centre in shaping the overall direction of research activity, aligning it with strategic plans and priorities.
- **Implementing a Research Programme:** Providing advice and scrutiny on research commissioned or supported by the Centre.
- **Ethical Review:** Advising on research proposals to ensure compliance with ethical guidelines and the protection of participants' rights and wellbeing.
- **Monitoring and Evaluation:** Supporting and scrutinising arrangements for monitoring research project progress, assessing performance against key outputs, and identifying areas for improvement.
- **Promoting Research Excellence:** Encouraging and facilitating high-quality research through various forms of support, including funding, information, and resources. Developing research capacity through opportunities to collaborate with partners.
- **Knowledge Exchange and Impact:** Ensuring strategies are in place for knowledge exchange and dissemination, and that research activity influences practice in the field.

## KEY RESPONSIBILITIES

- Read papers and attend meetings as required.
- Contribute constructively to meetings.
- Provide written and verbal feedback based on experience and knowledge
- Offer advice to Centre officers.
- Comply with the Centre's relevant policies and procedures.

## PERSON SPECIFICATION

Applications are invited to become a **Member of the Research Committee**. Members appointed through the application process must have knowledge of teaching and learning through one or more of the following:

- Experience of commissioning or conducting research;
- Experience of language planning at a strategic level;
- Experience of second language teaching and learning;
- Experience of the work of the National Centre for Learning Welsh and the broad support it provides across the language continuum;
- Experience of supervising research students;
- Or experience in other relevant fields, which may include data, statistics, or consultancy.

You will need to be someone who is keen to make a positive contribution to the Learn Welsh sector by drawing on your knowledge and experience. You will have ideas about what works well and what needs to change, and a willingness to share those ideas. You will be eager to make a difference to learners' experiences and to see more people gain confidence in using Welsh in their everyday lives. As such, you will want to influence the decisions taken to develop the Centre's research activity and help it become a focal point for research in teaching and learning.

If you would like an informal conversation about the role, you are welcome to contact Dona Lewis, Chief Executive of the National Centre for Learning Welsh, at dona.lewis@dysgucymraeg.cymru

To apply, please provide a covering letter and CV to: swyddfa@dysgucymraeg.cymru

Interviews may be arranged at a later date for these roles.

**Closing date:** 27 February 2026.